Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i'r *Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)* ('y Bil') yn ystod trafodion Cyfnod 2.

Cefndir

Cyflwynwyd y Bil gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ('y Gweinidog') ar **28 Mai 2012** ac yna cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** ('y Pwyllgor') i graffu arno yng Nghyfnod 1. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ar **4 Hydref 2012**.

Cafodd y Bil ei gymeradwyo'n unfrydol gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1 ar ôl dadl ar yr egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar **16 Hydref 2012**. Yn dilyn hynny, cafodd cynnig ariannol mewn perthynas â'r Bil ei basio gan yr Aelodau yn y Cyfarfod Llawn ar **23 Hydref 2012**.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 2 ar **17 Hydref 2012**. Cafodd **35** gwelliant eu cyflwyno (**22** ohonynt gan **Lywodraeth Cymru**). Ystyriodd y Pwyllgor y gwelliannau a'u gwaredu yn ei gyfarfod ar **7 Tachwedd 2012**.

Gwelliannau a basiwyd yng Nghyfnod 2

Cafodd 21 gwelliant ei basio gan y Pwyllgor yn ystod trafodion Cyfnod 2. Cafodd yr holl welliannau a basiwyd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Cafodd yr holl welliannau nad oeddent yn rai gan y Llywodraeth eu gwrthod. Ni chytunwyd ar un o welliannau'r Llywodraeth. Dyma'r prif newidiadau i'r Bil yn gryno:

Rhoi'r Bil ar waith

- Mae gwelliant 2, a gynigiwyd gan y Gweinidog, yn egluro bod y cynllun mandadol yn berthnasol yn unig i sefydliadau bwyd sydd wedi'u cofrestru neu wedi'u cymeradwyo yng Nghymru. Mae'r gwelliant hefyd yn egluro'n ddiamau nad yw'r cynllun sgorio hylendid bwyd yn berthnasol i sefydliadau busnes bwyd sydd wedi'u cofrestru neu wedi'u cymeradwyo y tu allan i Gymru. Mae gwelliannau 1 a 3 yn welliannau technegol canlyniadol i welliant 2.

Apeliadau

- Mae gwelliant 4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bwyd hysbysu'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ar yr un pryd â hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd o'i benderfyniad ynghylch apêl. Ar ôl iddo gynnal archwiliad, bydd angen i'r ASB ddarparu adroddiad i Weinidogion Cymru.
- Mae gwelliant 5 yn gwahaniaethu rhwng y swyddogaeth o benderfynu ar apêl, sy'n perthyn i'r awdurdod bwyd, a sut y caiff apêl ei reoli, sy'n gorfod cael ei wneud gan swyddog awdurdodedig gwahanol i'r swyddog a asesodd y sgôr hylendid bwyd sy'n destun yr apêl.
- Mae gwelliant 6 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy'r rheoliadau, i fynnu bod penderfyniadau ar ganlyniadau apeliadau yn cael eu gwneud gan rywun gwahanol i'r awdurdod bwyd a wnaeth yr asesiad.
- Mae gwelliant 7 yn egluro, yn dilyn apêl, y gall awdurdod bwyd ddiwygio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd, yn hytrach na'i newid. Mae gwelliant 8 y Llywodraeth yn egluro bod sgôr hylendid bwyd sy'n cael ei roi ar ôl apêl yn sgôr diwygiedig, ac nid yn sgôr newydd. Mae'r gwelliannau hyn hefyd yn gwahaniaethu rhwng y ddwy sefyllfa lle gellir newid sgôr—ar ôl apêl, ac ar ôl archwiliad ail-sgorio.
- Nod gwelliant 9 yw sicrhau bod yr ASB yn cael copi o'r hysbysiad am sgôr hylendid bwyd diwygiedig a chopi o'r datganiad ysgrifenedig am y rhesymau

dros y sgôr pan fydd awdurdod bwyd yn penderfynu diwygio sgôr hylendid bwyd ar ôl apêl.

Hysbysu am Sgoriau Hylendid Bwyd a'u Cyhoeddi

- Mae gwelliant 11 yn lleihau'r amser sydd ar gael i'r ASB gyhoeddi sgoriau hylendid bwyd ac unrhyw wybodaeth arall o ganlyniad i'r rheoliadau ar ei gwefan o 28 niwrnod i saith niwrnod.
- Mae gwelliant 12 yn ehangu'r ddarpariaeth wreiddiol drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwr sefydliad busnes bwyd sicrhau bod gweithwyr perthnasol yn ymwybodol o sgôr hylendid bwyd y sefydliad a bod gofyn iddynt gadarnhau'r sgôr ar gais.

Troseddau

- Mae gwelliant 14 yn egluro ei fod yn drosedd rhoi sgôr hylendid bwyd ffug neu gamarweiniol.
- Bydd gwelliant 16 yn sicrhau bod y cyfeiriad at hysbysu pobl ar lafar o sgôr hylendid bwyd yn cynnwys sgôr newydd yn dilyn archwiliad ail-sgorio.

Dyletswyddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

- Mae gwelliant 17 y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r ASB:
    - ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth weithredu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf;
    - cynnal adolygiad o weithrediad y cynllun mandadol ar ôl y flwyddyn gyntaf ac yna bob tair blynedd;
    - cynnal adolygiad blynyddol o weithrediad y system apeliadau; a
    - cynhyrchu adroddiad yn cynnwys manylion am yr adolygiadau hynny a darparu argymhellion am newidiadau, os oes unrhyw rai, dim hwyrach na tri mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r adolygiad yn berthnasol iddo.

Canllawiau

- Mae gwelliant 18 yn diwygio adran 22 i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i'r ASB yn ogystal ag i'r awdurdodau bwyd.

Pŵer i ddiwygio amserlenni

- Roedd adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithas yn argymell y dylid ystyried cyflwyno gwelliant sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy'r rheoliadau, ddiwygio'r amserlenni sydd wedi'u nodi yn adran 5 y Bil o ran yr hawl i apelio. Mae gwelliant 19 y Llywodraeth yn gweithredu'r argymhelliad hwnnw, ond mae'n mynd ymhellach drwy gyflwyno darpariaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio unrhyw amserlenni sydd wedi'u nodi ar wyneb y Bil.

Rheoliadau

- Mae gwelliannau 20 a 21 yn newid y grŵp o bwerau i wneud rheoliadau sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol. Mae'r gwelliannau hyn yn darparu ar gyfer gwneud y weithdrefn sy'n berthnasol i'r pwerau i wneud rheoliadau yn adran 6(2) a pharagraff 3 o'r Atodlen yn gadarnhaol yn hytrach na negyddol. Bydd y weithdrefn sy'n berthnasol i'r pwerau newydd i wneud rheoliadau yn adrannau 5(8) a 23, fel y'i cyflwynwyd gan welliannau 6 a 19, hefyd yn gadarnhaol.

Cychwyn

- Mae gwelliant 22 yn cymryd lle adran 25 y Bil Mae'r adran 25 newydd yn nodi fod y pŵer i wneud Gorchmynion cychwyn yn dod i rym ddeufis ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol, y disgwylir, os caiff y Bil ei basio gan y Cynulliad, ym mis Chwefror 2013. Mae'r gwelliant hefyd yn caniatáu hyblygrwydd o ran cychwyn darpariaethau amrywiol y Bil yn raddol, os oes angen.

Ymrwymiadau a wnaed gan y Gweinidog.Yn ystod trafodion Cyfnod 2, ymrwymodd y Gweinidog i fynd i'r afael â rhai materion penodol yng Nghyfnod 3

Yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Hydref, nododd fwriad i greu **amod pendant i awdurdodau bwyd ddarparu adroddiadau archwiliadau hylendid bwyd llawn ar gais defnyddwyr.** Fodd bynnag, yn dilyn hynny, cafodd gyngor cyfreithiol y byddai angen ystyried hynny ymhellach oherwydd goblygiadau ehangach posibl ar gyfer *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*. Os gellir goresgyn y pryderon hynny, bydd yn ceisio diwygio'r Bil yng Nghyfnod 3 i gynnwys amod o'r fath.[1]

Gofynnodd y Gweinidog i'r pwyllgor wrthwynebu gwelliannau 23, 24, 26, 30 a 31 ar sail dealltwriaeth y byddai'r Llywodraeth yn ceisio cyflwyno **amod i fusnesau bwyd gyhoeddi datganiad ar eu gwefannau, a deunydd cyhoeddusrwydd priodol arall, yn cyfeirio defnyddwyr at wefan yr ASB lle y gallant weld y cynllun sgorio hylendid bwyd**. Nododd ei bod yn bwriadu gwneud hyn yng Nghyfnod 3 ac ychwanegodd y byddai'n gallu esbonio i Aelodau yng Nghyfnod 3 yr agweddau sy'n gysylltiedig â rhoi newid o'r fath ar waith.[2]

[1] **Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 7 Tachwedd 2012, paragraff 95**
[2] **Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 7 Tachwedd 2012, paragraff 148**

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth ar y *Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)*, cysylltwch â Fay Buckle, Clerc Deddfwriaethol (**fay.buckle@cymru.gov.uk**) neu Alys Thomas (**alys.thomas@cymru.gov.uk**) Y Gwasanaeth Ymchwil.

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA